**IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL 08-10-25**

**Presenoldeb:**

**Cynghorwyr:** Gwynfor Owen (Cadeirydd), Annwen Hughes a Huw Rowlands

**Swyddogion**: Nia Grisdale (Rheolwr Gwasanaeth Cyfreithiol), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu), Andrew Lloyd Parry (Rheolwr Safonau Masnach a Thrwyddedu, a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**Eraill a wahoddwyd:**

Cynghorydd Gwilym Evans (Aelod Pwyllgor Trwyddedu – arsylwi)

Eitem 5: Ymgeisydd Mr A

Eitem 6: Ymgeisydd Mr B

Eitem 7: Ymgeisydd Mr C

1. **YMDDIHEURIADAU**

   Dim i'w nodi

2. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

   Dim i'w nodi

3. **MATERION BRYS**

   Dim i'w nodi

4. **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

   **PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 ac 13, Rhan 4, Atodiad 12 A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraffau yma yn berthnasol oherwydd bod gan yr unigolion dan sylw'r hawl i breifatrwydd ac nad oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu.**

5. **CAIS AM ADNEWYDDU TRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI / HURIO PREIFAT – Mr A**

   Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â Pholisi Trwyddedu Cyngor Gwynedd. Nodwyd mai pwrpas y polisi oedd gosod canllawiau ar y meini prawf wrth ystyried cais yr ymgeisydd gyda'r nod o ddiogelu'r cyhoedd drwy sicrhau:

   - Bod yr unigolyn yn unigolyn addas a phriodol

- Nad yw'r unigolyn yn fygythiad i'r cyhoedd
- Bod y cyhoedd wedi'u diogelu rhag pobl anonest
- Bod plant a phobl ifanc wedi'u diogelu
- Bod pobl ddiamddiffyn wedi'u diogelu
- Bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio cerbydau trwyddedig

Cyflwynodd y Rheolwr Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr A i adnewyddu trwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat. Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â'r hyn sydd yn gysylltiedig ag addasrwydd unigolyn i fod yn yrrwr cerbyd hacni/hurio preifat

Roedd yr Awdurdod Trwyddedu yn argymell i'r Is-bwyllgor wrthod y cais.

Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais gan roi gwybodaeth am gefndir y tri achlysur y derbyniodd y pwyntiau cosb, a'i amgylchiadau personol. Nododd nad oedd wedi datgelu'r pwyntiau cosb ar ei gais oherwydd iddo ystyried mai achosion o yfed a gyrru a / neu ymddygiad troseddol oedd rhaid ei datgan i'r Uned Trwyddedu. Derbyniodd ddifrifoldeb y sefyllfa, petai yn colli ei drwydded, byddai yn colli ei waith.

**PENDERFYNWYD nad oedd yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat gyda Chyngor Gwynedd.**

Wrth gyrraedd eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol:

- Gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'
- Canllawiau Addasrwydd Unigolyn
- Adroddiad yr Adran Drwyddedu
- Ffurflen gais yr ymgeisydd
- Adroddiad Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau
- Sylwadau llafar gan yr ymgeisydd

Rhoddwyd ystyriaeth benodol i'r materion canlynol

**Cefndir**

Ym mis Rhagfyr 2022 derbyniodd yr ymgeisydd 3 pwynt cosb am ragori ar y terfyn cyflymder statudol ar ffordd gyhoeddus.

Yn mis Tachwedd 2023 derbyniodd yr ymgeisydd 3 pwynt cosb am ragori ar y terfyn cyflymder statudol ar ffordd gyhoeddus.

Yn mis Mehefin 2024 derbyniodd yr ymgeisydd 3 pwynt cosb am ragori ar y terfyn cyflymder statudol ar ffordd gyhoeddus.

**CYMALAU PERTHNASOL Y POLISI**

Ystyriwyd paragraff 2.2 o Bolisi'r Cyngor lle nodi'r nad oes rheidrwydd i berson sydd â chollfarn am drosedd ddifrifol gael ei wahardd rhag cael trwydded, ond bydd disgwyl iddo fod yn rhydd rhag unrhyw gollfarnau am gyfnod priodol fel y nodir yn y Polisi, a dangos tystiolaeth ei fod yn unigolyn addas a phriodol i ddal trwydded. Mae cyfrifoldeb ar yr ymgeisydd i brofi ei fod yn berson addas a phriodol. Mae paragraff 2.4 yn nodi pan fydd ymgeisydd wedi'i gael yn euog o drosedd(au) neu fod mater arall/materion eraill i'w (h)ystyried yng nghyswllt hynny, ni chaiff y Cyngor adolygu rhinweddau'r gollfarn honno na'r mater arall hwnnw.

Ystyriwyd paragraff 4.5 sydd yn nodi bod Gorchymyn Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) (Diwygio) 2002 yn caniatáu'r Is-bwyllgor ystyried pob collfarn, p'run ai ydynt wedi eu treulio o dan Ddeddf 1974 neu beidio.

Mae rhan 13 yn ymwneud a mân droseddau traffig ac yn cyfeirio yn bennaf at droseddau sydd heb eu rhestru ym mharagraff 12.2 o'r Polisi gyda pharagraff 13.1 yn diffinio 'man drosedd traffig fel trosedd sydd yn derbyn rhwng 1 a 3 pwynt cosb. Ystyriwyd paragraff 13.3 sy'n datgan y "Gallai mwy nag un gollfarn am fân drosedd traffig neu fater arall i'w ystyried arwain at wrthod cais, yn enwedig os oes sawl collfarn neu faterion eraill i'w hystyried ar gyfer yr un drosedd, e.e. goryrru. Mae'n bosibl y caiff gyrrwr trwyddedig ei gyfeirio at sylw Is-bwyllgor Trwyddedu os oes mwy na dwy drosedd ac/neu gyfanswm o 6 phwynt ar ei drwydded

**CASGLIADAU**

Derbyniodd yr Is-bwyllgor bod gan yr ymgeisydd dair trosedd o oryrru o fewn ychydig dros flwyddyn a hanner i'w gilydd a cafwyd eglurhad am bob un o'r digwyddiadau goryrru a'u lleoliadau. Derbyniwyd hefyd ei fod yn edifar, ei fod wedi dysgu gwers a'I fod bellach yn gyrru o fewn terfynau cyflymder.

Yn unol â'r Polisi, gallai mwy nag un gollfarn ar gyfer mân drosedd draffig, yn enwedig os oes patrwm i'r ymddygiad, arwain at wrthod trwydded. Ar ôl pwyso a mesur yr holl ffactorau yn ofalus, gan gydnabod bod yr ymgeisydd wedi dangos edifeirwch am y troseddau, penderfyniad yr is bwyllgor oedd bod tri achos o oryrru yn amlygu patrwm ac felly nid oeddynt wedi eu darbwyllo ei fod yn cyrraedd safonau disgwyliedig gyrrwr tacsi.

Penderfynodd yr Is-bwyllgor wrthod y cais

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i'r ymgeisydd gan amlygu ei hawl i apelio'r penderfyniad

**6. CAIS AM ADNEWYDDU TRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI / HURIO PREIFAT – Mr B**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â Pholisi Trwyddedu Cyngor Gwynedd. Nodwyd mai pwrpas y polisi oedd gosod canllawiau ar y meini prawf wrth ystyried cais yr ymgeisydd gyda'r nod o ddiogelu'r cyhoedd drwy sicrhau:

- Bod yr unigolyn yn unigolyn addas a phriodol
- Nad yw'r unigolyn yn fygythiad i'r cyhoedd
- Bod y cyhoedd wedi'u diogelu rhag pobl anonest
- Bod plant a phobl ifanc wedi'u diogelu
- Bod pobl ddiamddiffyn wedi'u diogelu
- Bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio cerbydau trwyddedig

Cyflwynodd y Rheolwr Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr B i adnewyddu trwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat. Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â'r hyn sydd yn gysylltiedig ag addasrwydd unigolyn i fod yn yrrwr cerbyd hacni/hurio preifat

Roedd yr Awdurdod Trwyddedu yn argymell i'r Is-bwyllgor gymeradwyo'r cais

Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais gan roi gwybodaeth am gefndir y pwyntiau cosb, a'i amgylchiadau personol. Nododd nad oedd yn defnyddio ei ffôn i dderbyn galwad nac anfon neges, ac mai gosod y ffôn i'w wefrio a wnaeth wrth eistedd

mewn traffig ar y ffordd adref o'i waith. Amlygodd ei fod yn gyrru car ei hun ar y pryd ac nid oedd ganddo gwsmeriaid yn y car. Ategodd ei fod yn mwynhau ei waith fel gyrrwr tacsi.

Mewn ymateb i gwestiwn pam nad oedd wedi amlygu manylion y drosedd ar ei ffurflen gais, nododd nad oedd llawer o hyder ganddo mewn cwblhau gwaith papur ac mai camgymeriad oedd hyn ac nid ymgais i guddio'r gwirionedd. Ategodd, o fewn ugain mlynedd, ei fod wedi cael un gosb o oryrru.

**PENDERFYNWYD bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat gyda Chyngor Gwynedd.**

Wrth gyrraedd eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol:

- Gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'
- Canllawiau Addasrwydd Unigolyn
- Adroddiad yr Adran Drwyddedu
- Ffurflen gais yr ymgeisydd
- Adroddiad Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau
- Sylwadau llafar gan yr ymgeisydd

Rhoddwyd ystyriaeth benodol i'r mater canlynol

**Cefndir**

Yn Ebrill 2025, derbyniodd yr ymgeisydd 6 pwynt cosb a dirwy o £200 am dorri gofyniad mewn perthynas â rheoli cerbyd a defnydd o ffôn symudol yn groes i Adran 41D o'r Ddeddf Traffig y Ffyrdd 1988.

**CYMALAU PERTHNASOL Y POLISI**

Ystyriwyd paragraff 2.2 o Bolisi'r Cyngor lle nodi'r nad oes rheidrwydd i berson sydd â chollfarn am drosedd ddifrifol gael ei wahardd rhag cael trwydded, ond bydd disgwyl iddo fod yn rhydd rhag unrhyw gollfarnau am gyfnod priodol fel y nodir yn y Polisi, a dangos tystiolaeth ei fod yn unigolyn addas a phriodol i ddal trwydded. Mae cyfrifoldeb ar yr ymgeisydd i brofi ei fod yn berson addas a phriodol. Mae paragraff 2.4 yn nodi pan fydd ymgeisydd wedi'i gael yn euog o drosedd(au) neu fod mater arall/materion eraill i'w (h)ystyried yng nghyswllt hynny, ni chaiff y Cyngor adolygu rhinweddau'r gollfarn honno na'r mater arall hwnnw.

Ystyriwyd paragraff 4.5 sydd yn nodi bod Gorchymyn Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) (Diwygio) 2002 yn caniatáu'r Is-bwyllgor ystyried pob collfarn, p'run ai ydynt wedi eu treulio o dan Ddeddf 1974 neu beidio.

Mae rhan 12 o'r Polisi yn ymwneud â chollfarnau moduro gyda pharagraff gyda pharagraff 12.3 yn nodi y bydd cais yn cael ei wrthod os oes collfarn yn erbyn yr ymgeisydd ac nad yw wedi bod yn rhydd rhag collfarn am 6 mis o leiaf.

**CASGLIADAU**

Bu i'r Is-bwyllgor bwyso a mesur yr holl ffactorau perthnasol gan ystyried sylwadau'r ymgeisydd dros dderbyn chwe phwynt cosb am ddefnyddio ffôn symudol wrth yrru fel yr amlinellwyd uchod. Derbyniodd yr Is-bwyllgor ei fod wedi bod yn anffodus o gael ei ddal yn ceisio gwefrio ei ffôn symudol yn hytrach na chymryd neu wneud galwad tra roedd yn llonydd mewn traffig. Ystyriodd yr Is-bwyllgor bod hyn wedi digwydd tra roedd yn gyrru ei

gar ei hun ac nid wrth gyflawni gwasanaethau tacsi. Tynnwyd sylw hefyd bod ychydig mwy na chwe mis wedi mynd heibio ers y drosedd.

Penderfynodd yr Is-bwyllgor gymeradwyo'r cais

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i'r ymgeisydd gan amlygu ei hawl i apelio'r penderfyniad.

**7. CAIS AM ADNEWYDDU TRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI / HURIO PREIFAT – Mr C**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â Pholisi Trwyddedu Cyngor Gwynedd. Nodwyd mai pwrpas y polisi oedd gosod canllawiau ar y meini prawf wrth ystyried cais yr ymgeisydd gyda'r nod o ddiogelu'r cyhoedd drwy sicrhau:

- Bod yr unigolyn yn unigolyn addas a phriodol
- Nad yw'r unigolyn yn fygythiad i'r cyhoedd
- Bod y cyhoedd wedi'u diogelu rhag pobl anonest
- Bod plant a phobl ifanc wedi'u diogelu
- Bod pobl ddiamddiffyn wedi'u diogelu
- Bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio cerbydau trwyddedig

Cyflwynodd y Rheolwr Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr C am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat. Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â'r hyn sydd yn gysylltiedig ag addasrwydd unigolyn i fod yn yrrwr cerbyd hacni/hurio preifat.

Roedd yr Awdurdod Trwyddedu yn argymell i'r Is-bwyllgor wrthod y cais

Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar ei gais a'i amgylchiadau personol. Gofynnwyd iddo hefyd egluro pam gafodd ei arestio a hynny wedyn yn arwain at ddiddymu ei drwydded gyrrwr tacsi yn Ionawr 2025.

Mewn ymateb i gwestiwn pam nad oedd wedi apelio penderfyniad Cyngor Sir Fflint i ddiddymu ei drwydded o ystyried bod 'dim gweithrediad pellach' oherwydd 'problemau tystiolaethol' ar ol iddo gael ei arestio, nododd ei fod yn dioddef straen oherwydd y digwyddiad ac nid oedd awydd ganddo ddychwelyd i'r swydd a wynebu swyddogion y Cyngor. Erbyn hyn, nododd bod angen swydd arno a'i fod yn ystyried symud ardal.

Mewn ymateb i gwestiwn pam na ddatgelwyd gwybodaeth angenrheidiol ar ei ffurflen gais, nododd nad oedd ganddo reswm dros wneud hynny ar wahân i'r ffaith ei fod yn anghyfforddus ac yn poeni y byddai'n golygu na allai gael swydd yn y dyfodol. Ategodd nad oedd wedi derbyn collfarn ac nid oedd yn euog o drosedd.

**PENDERFYNWYD nad oedd yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat gyda Chyngor Gwynedd.**

Wrth gyrraedd eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol:

- Gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'
- Canllawiau Addasrwydd Unigolyn
- Adroddiad yr Adran Drwyddedu
- Ffurflen gais yr ymgeisydd
- DBS yr ymgeisydd
- Copi o drwydded gyrru'r ymgeisydd

- Adroddiad Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau
- Datganid Cyngor Sir y Fflint
- Datganiad Heddlu Swydd Gaer
- Sylwadau llafar gan yr ymgeisydd

Rhoddwyd ystyriaeth benodol i'r materion canlynol

**Cefndir**

Ym mis Ionawr 2025 cafodd yr ymgeisydd ei arestio am ymosodiad rhywiol yn groes i adran 3 o Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003. Yn yr un mis diddymwyd ei drwydded gan yr Awdurdod perthnasol gan nad oeddent yn fodlon ar sail tebygolrwydd ei fod yn parhau i fod yn berson addas a phriodol i ddal trwydded.

Yn mis Ebrill 2025 cyflwynwyd cais i Gyngor Gwynedd am drwydded tacsi / llogi preifat, ond ni fu i'r ymgeisydd ddatgelu ei fod wedi dal trwydded gydag Awdurdod Lleol arall yn flaenorol na bod yr Awdurdod hwnnw wedi diddymu'r drwydded.

**CYMALAU PERTHNASOL Y POLISI**

Ystyriwyd paragraff 2.2 o Bolisi'r Cyngor lle nodi'r nad oes rheidrwydd i berson sydd â chollfarn am drosedd ddifrifol gael ei wahardd rhag cael trwydded, ond bydd disgwyl iddo fod yn rhydd rhag unrhyw gollfarnau am gyfnod priodol fel y nodir yn y Polisi, a dangos tystiolaeth ei fod yn unigolyn addas a phriodol i ddal trwydded. Mae cyfrifoldeb ar yr ymgeisydd i brofi ei fod yn berson addas a phriodol. Mae paragraff 2.4 yn nodi pan fydd ymgeisydd wedi'i gael yn euog o drosedd(au) neu fod mater arall/materion eraill i'w (h)ystyried yng nghyswllt hynny, ni chaiff y Cyngor adolygu rhinweddau'r gollfarn honno na'r mater arall hwnnw.

Ystyriwyd paragraff 4.5 sydd yn nodi bod Gorchymyn Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) (Diwygio) 2002 yn caniatáu'r Is-bwyllgor ystyried pob collfarn, p'run ai ydynt wedi eu treulio o dan Ddeddf 1974 neu beidio.

Ystyriwyd cymal 3.29 o'r Ddogfen Sefydliad Trwyddedu sydd yn nodi bod rhaid ystyried ffactorau ehangach na'r wybodaeth a geir mewn tystysgrif DBS a phrofion eraill, a'i bod yn angenrheidiol ystyried cymeriad unigolyn yn ei gyfanrwydd.

**CASGLIADAU**

Bu i'r Is-bwyllgor bwyso a mesur yr holl ffactorau perthnasol gan ystyried sylwadau'r ymgeisydd ynglŷn â chael ei arestio am drosedd, o dan Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003, yn dilyn digwyddiad tra roedd yn yrrwr tacsi. Amlygodd ei fod wedi codi person oedd yn feddw a bregus, ac wrth geisio gofyn iddi hi dalu am fod yn sâl yn y car, arweiniodd hyn at honiadau yn ei erbyn. Derbyniwyd cadarnhad gan yr Heddlu bod yr achos wedi'i gau oherwydd anawsterau tystiolaethol ac nid oedd unrhyw wybodaeth bellach wedi dod i law.

Wrth ystyried sylwadau'r ymgeisydd dros beidio datgan ei fod wedi dal trwydded gydag Awdurdod arall ac na fu iddo herio penderfyniad y swyddogion dros ddiddymu'r drwydded honno, roedd yr Is-bwyllgor yn bryderus am y rhesymau a gyflwynwyd gan nodi bod gonestrwydd yn nodwedd hanfodol i addasrwydd gyrrwr tacsi.

Roedd yr Is-bwyllgor yn ystyried yr honiadau a wnaed yn rai difrifol iawn. Ystyriwyd cyfrifoldebau disgwyliedig yr ymgeisydd ar y noson o fod yn gyrru tacsi i berson oedd yn agored i niwed - diogelu'r cyhoedd yw un o'r prif nodweddion i'w hystyried wrth asesu addasrwydd ymgeisydd i ddal trwydded gyrru tacsi.

Ar sail tebygolrwydd, nid oedd yr Is-bwyllgor yn fodlon y gallent fod yn hyderus fod yr ymgeisydd yn cyrraedd safonau gyrrwr tacsi. Yn unol â Dogfen y Sefydliad Trwyddedu mae'n rhaid i'r Is-bwyllgor fodloni eu hunain bod yr ymgeisydd wedi amlygu ei hun i fod yn berson cyfrifol, addas a phriodol i ddal trwydded.

Penderfynodd yr Is-bwyllgor wrthod y cais

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i'r ymgeisydd gan amlygu ei hawl i apelio'r penderfyniad.

Dechreuodd y cyfarfod am 14 :00 a daeth i ben 16 :00